

# WROTH, WILLIAM (1576 - 1641), clerigwr Piwritanaidd a chynullydd yr eglwys Annibynnol gyntaf yng Nghymru

**Enw:** William Wroth

**Dyddiad geni:** 1576

**Dyddiad marw:** 1641

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** clerigwr Piwritanaidd a chynullydd yr eglwys Annibynnol gyntaf yng Nghymru

**Maes gweithgaredd:** Crefydd

**Awdur:** Thomas Richards

Ganwyd yn 1576, ond ni ddaeth sicrwydd byth ai un o Wroths Maindiff yn Llandeilo Pertholau ydoedd, ai aelod o deulu a wladychasai yn Llangadog-ger-Wysg. Aeth i Rydychen - cysylltir ei enw â thri o'r colegau (Christ Church, hyd yn oed) - a graddio'n M.A. o Goleg Iesu, 1605. Pa bryd yn hollol y daeth yn rheithor Llanfaches sydd dipyn o ddirgelwch, gan fod llawer i'w ddweud yn y Public Record Office dros 1611, a llawer hefyd dros 1617. Adroddir storïau rhamantus am ei dröedigaeth o fod yn glerig ysgafala segur i fod yn Biwritan ymroddedig; efallai mai 1630 oedd blwyddyn y trawsgyweiriad, ond nid oes brawf. Dywedir ei fod wedi gwrthod ufuddhau i'r ddeddf ynghylch chwaraeon ar y Sul; beth bynnag oedd y rheswm, gwsiwyd ef o flaen Llys yr Uchel Gomisiwn yn Hydref 1635, ac wedi llawer o ohirio, ateb, a gwrthateb, y diwedd oedd i Wroth ymostwng yn 1638; y theori fwyaf tebygol yw iddo roddi i fyny reithoraeth Llanfaches y flwyddyn honno, canys disgrifia ei hun yn ei ewyllys olaf (17 Medi 1638) fel ' Preacher of God's Word ' ac nid ' rector of Llanfaches.' Diddorol y tu hwnt yw'r ewyllys honno, gyda'r dymuniad i [Henry Walter](#) fod yn ysgutor, enwau'r pum tyst, a'r tair erw o dir a gymynai fel cardod i dlodion Llanfaches dros byth. Rhaid yw credu ei fod yn brysur yn y cyfwn hwn yn casglu aelodau i ffurfio eglwys Annibynnol y tu allan i'r eglwys blwyf, ' leading away many simple people,' canys ym mis Tachwedd 1639 daeth Henry Jessey, y pregethwr Piwritanaidd enwog ac Annibynnwr ar y pryd, i lawr o Lundain i ffurfio'r unigolion a gasglwyd yn eglwys reolaidd ar batrwm y ' New England Way,' ffordd gymedrol led- Bresbyteraidd o ymwahanu oddi wrth eglwys Loegr. Ffurio eglwys, nid codi capel; eglwys gymysg, ond odid, o Fedyddwyr ac Annibynwyr. Buchedd ddilychwin, pregethu efengylaidd, ei swydd fel gweinidog cyntaf yr eglwys gyntaf o Ymneilltuwyr yng Nghymru : o deimlo'r nerthoedd hyn, geilw un cyfoeswr ef apostol, a Llanfaches yn Antiochia yng nghanol cenhedloedd, a Wroth yn faen tynnu i Biwritaniaid y siroedd cyfagos. Sonia'r ' Broadmead Records ' am ei fynych ymweliadau i bregethu ym Mryste. Y 'Records' hefyd sy'n tystio y dymunai Wroth gael myned o'r byd cyn i drwmp rhyfel seinio yn y wlad. Cafodd ei ddymuniaid; profwyd ei ewyllys yn Llandaf ym mis Ebrill 1641.

## Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

## Ffynonellau

Bradney, *A History of Monmouthshire*, i, 201, 340; iv; ii, 189; iii, 343

Foster, *Alumni Oxonienses*

*Cardiff Naturalists' Society*, XXV, ii, 6-7

*Life and Death of Mr. Henry Jessey* (1671), 1671, 9-10

*Calendar of State Papers, Domestic Series, Charles I*, 261, 268, 270, 274, 280, 287

*Broadmead Records* (1847, 1865), 9, 27, 29, 515

T. Richards, *Cymru a'r Uchel Gomisiwn, 1633-1640* (Lerpwl 1930), 38-9

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1941, 157-68, 182-4

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q8020603](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

